



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Diogelwch rhag Tân yn y Cartref





**Bob dydd
yng Nghymru,
mae dros 170
o danau yn
cynnau mewn
cartrefi**

Rhagarweiniad

Bob blwyddyn, mae diffoddwyr tân yn mynd i dros 2,000 o danau damweiniol mewn cartrefi yng Nghymru. Gall y rhan fwyaf o bobl wneud rhywbeth i leihau'r risg bod tân yn cynnau yn ddamweiniol yn eu cartref, un ai drwy newid ychydig ar eu harferion o ddydd i ddydd, neu drwy addasu ambell beth syml o amgylch y tŷ.

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn llwyddo i ddianc yn ddiogel ond dros y tair blynedd diwethaf mae cannoedd o bobl wedi'u hanafu, ac mae 63 wedi marw, mewn tanau damweiniol mewn cartrefi yng Nghymru.



Larymau mwg

Dyfais yw larwm mwg sy'n rhoi rhybudd pan mae'n synhwyro mwg. Bydd yn canu yn fuan ar ôl i dân gynnu. Mae'n rhoi cyfle i chi ddianc yn fyw.

- Os nad oes larymau mwg yn eich cartref, ffoniwch 0800 169 1234 a bydd eich Gwasanaeth Tân ac Achub lleol yn eu gosod nhw am ddim i chi.
- Dylech osod larwm mwg ar bob llawr yn eich cartref - yn ddelfrydol ar y nenfwd yn y cyntedd a'r landin.
- Peidiwch â gosod larwm mwg yn y gegin, yr ystafell ymolchi a'r garej, oherwydd gallai gael ei seinio yn ddamweiniol yno.
- Defnyddiwch y botwm pwrpasol i brofi batris y larwm mwg unwaith yr wythnos.
- Dim ond pan y mae gennych fatris newydd wrth law y dylech dynnu'r hen rai o'ch larymau. Dim ond larymau mwg sy'n gweithio a all achub bywydau.
- Dylech lanhau llwch o'ch larymau mwg drwy ddefnyddio hwfer arnynt ddwywaith y flwyddyn.



Coginio'n Ddiogel

Tân yn y gegin yw'r math mwyaf cyffredin o dân damweiniol mewn cartrefi yng Nghymru. Bob blwyddyn, mae coginio yn achosi dros 1,000 o danau mewn cartrefi.

- Peidiwch byth â gadael bwyd yn coginio heb gadw llygad arno.
- Peidiwch â defnyddio matsys neu leitars i gynnu poptai nwy. Mae dyfeisiau sbarcio yn fwy diogel.
- Cadwch geblau trydanol a phethau allai gynnau'n hawdd i ffwrdd o'r ffwrn a'r tostiwr.
- Cadwch y ffwrn, y tostiwr, yr hob a'r gridyll yn lân. Mae sain, briwsion a braster sy'n casglu at ei gilydd yn gallu cynnu yn hawdd.
- Cadwch geblau ac offer trydanol draw wrth ddŵr.
- Gwnewch yn siŵr nad yw breichiau eich sosbenni yn pwyso ymhellach na blaen yr hob.



Smygu

Mae diffyg gofal yn gallu lladd, ac mae tanau sy'n cynnau oherwydd smygu yn lladd mwy o bobl nag unrhyw fath arall o dân. Mae sigarét yn gallu llosgi ar dymheredd o dros 700°C.

- Gwnewch yn siŵr eich bod wedi diffodd eich deunydd smygu yn llwyr cyn gadael y tŷ neu cyn mynd i'r gwely.
- Peidiwch â gwacáu blychau llwch i mewn i'r bin. Rhowch y llwch mewn cynhwysydd metel - y tu allan i'r tŷ, yn ddelfrydol.
- Peidiwch â smygu os ydych chi ar eich pen eich hun mewn ystafell a'ch bod wedi blino neu wedi yfed alcohol. Gallech chi syrthio i gysgu a rhoi'r dodrefn ar dân.
- Peidiwch byth â smygu yn y gwely.
- Cadwch fatsys a leitars y tu hwnt i afael plant.



**Diffoddwch hi,
yn llwyr!**

Sosbenni saim



- Peidiwch byth â llenwi'ch sosban saim fwy nag un rhan o dair yn llawn o olew.
- Defnyddiwch sosban saim drydan sydd â rheolydd thermostatig arni. Dydyn nhw ddim yn gallu gorboethi.
- Os ydych chi'n ffrïo bwyd trwy ei drochi mewn olew, sychwch ef cyn ei roi yn y badell boeth. Os ydy'r olew yn dechrau mygu, diffoddwch y gwres a gadewch y badell i oeri.

Os ydy eich sosban saim yn mynd ar dân, dylech chi:

- Gau drws y gegin.
- Cael pawb allan o'r tŷ.
- Ffonio 999 a gofyn am y Gwasanaeth Tân ac Achub.

Cofiwch:

- Dim ond os ydy hi'n ddiogel gwneud hynny y dylech chi ddiffodd y gwres.
- Peidiwch â symud y sosban.
- Peidiwch byth â thafllu dŵr dros y sosban.
- Gadewch y gwaith o ymladd y tân i ddiffoddwyr tân proffesiynol.

**Peidiwch
byth â gadael
bwyd yn
coginio heb
gadw llygad
arno**

Diogelwch trydanol

Dylai'r marc diogelwch Prydeinig neu Ewropeaidd fod ar bob teclyn trydanol.

Cofiwch:

- Mae plygiau a socedi poeth, ffwsys sy'n chwythu am ddim rheswm, goleuadau sy'n fflachio a marciau rhuddo ar socedi a phlygiau, oll yn arwyddion o berygl.
- Edrychwch am ôl traul ar geblau a phlygiau trydanol, a gwnewch yn siŵr eu bod wedi eu gwifrio'n iawn. Mae ceblau sydd wedi gwisgo neu wifrau mewol sy'n dod i'r golwg yn gallu cynnau tân, a dylech eu newid ar unwaith.
- Peidiwch â gorlwytho socedi – defnyddiwch un plwg ym mhob soced. Os oes rhaid i chi ddefnyddio addasydd â ffws, gwnewch yn siŵr nad yw cyfanswm yr allbwn yn fwy na 13 amp.
- Cadwch geblau, plygiau ac offer trydanol draw wrth ddŵr.
- Cadwch offer trydanol yn lân ac mewn cyflwr da, a gwnewch yn siŵr eu bod yn cael gwasanaeth rheolaidd. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn achos peiriannau golchi a sychwyr dillad a all fod ymlaen dros nos.
- Peidiwch byth â phrynu teclyn trydanol heb fod yn sicr ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio. Os ydych yn prynu offer ail-law, dylech bob tro ofyn i drydanwr cymwysedig gael golwg arnynt.
- Oni bai eu bod wedi eu cynllunio fel bod modd ichi eu gadael



ymlaen, diffoddwch offer trydanol nad ydych chi'n eu defnyddio a thynnwch eu plygiau allan o'r socedi.

- Storiwch flancedi trydan naill ai yn fflat neu wedi eu rhoio, er mwyn amddiffyn y gwifrau ynddynt.
- Dim ond os oes rheolydd thermostatig arno a'i fod yn ddiogel i'w ddefnyddio drwy'r nos y dylech adael blanced drydan ymlaen tan y bore. Fel arall, diffoddwch e a thynnwch y plwg o'r soced cyn ichi fynd i'r gwely.
- Gosodwch wresogyddion cludadwy â'u cefnau at y wal. Peidiwch byth â'u rhoi ar hyd eich llwybr dianc.
- Peidiwch â rhoi gwresogyddion cludadwy ger unrhyw lenni neu ddodrefn a pheidiwch byth â'u defnyddio i sychu dillad.
- Gall goleuadau a bylbiau fynd yn boeth iawn. Byddwch yn ofalus lle rydych yn eu rhoi nhw.



**Cyn mynd
allan,
diffoddwch
y cyfan!**

Canhwyllau

Dylech drin canhwyllau yn yr un ffordd ag y byddech yn trin unrhyw fflamau noeth eraill. Ar gyfartaledd, mae canhwyllau yn cynnau pum tân y diwrnod yn y Deyrnas Unedig. Dim ond eiliad sydd ei angen ar dân i gynnau ond gall y canlyniadau bara am oes.

- Cadwch ganhwyllau draw wrth unrhyw beth a allai gynnau'n hawdd, fel lenni, silffoedd, defnydd a dodrefn.
- Peidiwch â gadael i ganhwyllau gwympto! Mae angen cadw canhwyllau i sefyll yn syth mewn canhwyllbren go iawn.



- Gosodwch eich canhwylau ar ben rhywbeth sy'n gallu ymwrthod â gwres. Mae canhwylau o bob math yn gallu toddi pethau plastig fel y teledu a'r bath.
- Peidiwch ag estyn ar draws kannwyll! Gallech chi roi eich dillad neu eich gwallt ar dân.
- Cadwch gannwyllau o afael plant a thu hwnt i gyrraedd anifeiliaid anwes.
- Gadewch 10cm (4") o le rhwng dwy gannwyll sy'n llosgi, bob tro.
- Peidiwch â gadael i unrhyw beth gwmpo i mewn i'r cŵyr poeth.
- Peidiwch byth â gadael kannwyll yn llosgi heb gadw llygad arni a gwnewch yn siŵr fod canhwylau wedi'u diffodd yn llwyr pan rydych yn gadael yr ystafell.

Lluniwch gynllun er mwyn dianc yn fyw!

- Gwnewch yn siŵr fod pawb yn y tŷ yn gwybod beth i'w wneud os oes tân yn cynnau, a sut i ddianc yn ddiogel.
- Cynlluniwch eich llwybrau dianc gyda'ch gilydd. Gwnewch yn siŵr fod plant yn gwybod na ddylen nhw fynd i guddio os ydyn nhw'n clywed larwm mwg yn canu, neu os ydyn nhw mewn tŷ sydd ar dân.
- Cadwch y ffordd allan yn glir bob amser.
- Cadwch allwedi'r ffenestri a'r drysau wrth law, a gwnewch yn siŵr fod pawb yn gwybod lle maen nhw.

- Gyda'r nos, caewch y drysau i gyd. Drwy wneud hynny, gallwch chi amddiffyn eich llwybrau dianc rhag rhag mwg a tân. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn cartrefi lle na allech chi ddianc allan o ffenestr - er enghraifft os ydych yn byw mewn tŷ tal neu mewn fflat uchel.

Os oes tân yn cynnau yn eich cartref:

- Ceisiwch gadw eich pen.
- Gwnewch yn siŵr fod pawb allan o'r tŷ cyn gynted â phosibl.
- Peidiwch â gwastraffu amser yn chwilio am y tân neu'n casglu pethau gwerthfawr.
- Cropian sydd orau os oes mwg, oherwydd bydd yr aer yn gliriach yn nes at y llawr.
- Unwaith rydych chi allan o'r adeilad, ffoniwch 999 a gofyn am y Gwasanaeth Tân ac Achub.
- Dywedwch eich cyfeiriad yn glir, gan roi cymaint o fanylion â phosibl.
- Unwaith rydych chi allan o'r adeilad, arhoswch yno.

Os na fedrwch ddilyn eich llwybrau dianc

- Os ydych chi ar y llawr gwaelod neu'r llawr cyntaf, ewch allan drwy ffenestr. Defnyddiwch dhillad gwely i dorri'ch cwmp, a gostyngwch eich hunan tua'r llawr – peidiwch â neidio.
- Os na allwch chi agor y ffenestr, torrwch y gwydr yn y gornel isaf. Gorchuddiwch yr ymylon miniog â thyweli neu flancedi.
- Os na allwch chi ddianc, casglwch bawb mewn un ystafell - ynd.
- Ffoniwch 999 cyn gynted ag y byddwch yn glir o'r adeilad. Defnyddiwch ffôn symudol neu ffôn cymydog.

Os ydy eich dillad yn mynd ar dân

- Peidiwch â rhedeg o gwmpas.
- Gorweddwch ar y llawr a rhoio.
- Os oes rhywun arall ar dân, dywedwch wrthyn nhw am orwedd ar y llawr, yna mygwch y fflamau â defnydd trwm fel cot, blanced neu flanced dân.
- Stopio, syrthio, rhoio!

**I gael archwiliad
diogelwch rhag
tân yn eich
cartref yn rhad
ac am ddim,
ffoniwch**

**0800 169 1234
www.fflachtan.org**

**Ewch allan,
arhoswch allan
a ffoniwch
999**